CYNGOR CYMUNED BETWS

2009 06 Mehefin Cyfarfod Arbennig

Cynhaliwyd Cyfarfod Arbennig y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar ddydd Mercher y 24ain o Fehefin 2009 am 6.30 yr hwyr.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Carwyn James, Anne Sizmur, Maldwyn John, Annette Price, Loreen Lewis, Anthony Richards, June Gunter, Catherine Smith, Betsan Jones (cyrraedd yn hwyr) a Dr John Dorian Evans (ymwelydd).

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Arnallt James, Richard Howell, Menna Roberts a Chlerc y Cyngor Cymuned Catherine Brettle.

Dechreuodd y Cyfarfod am 6.30 yr hwyr gyda'r Is Gadeiryddes yn y gadair.

Fe gynhaliwyd y cyfarfod mewn ymateb i benderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ganiatáu rhoi 15 tyrbinau gwynt ar Fynydd y Betws. Sylwadau i gael eu danfon at Lywodraeth Cynulliad Cymru o fewn 3 wythnos o gyhoeddi adroddiad yr arolygwr . Roedd yr aelodau yn pruddhau gyda'r penderfyniad, ac roeddynt yn teimlo nid oedd ystyriaeth wedi cael ei gwneud yn yr adroddiad ynglyn â theimladau'r preswylwyr lleol a fu yn erbyn y cynigion. Dywedwyd fod Sbaen wedi ei adael fferm gwynt oherwydd eu haneffeithiol a'u costau gormodol. Roedd llawer yn teimlo nid yw'r arolygwr wedi cymryd digon o sylw ar y bygythiad o ymsuddiant ar Fynydd y Betws oherwydd gweithrediadau eang mwyngloddio sydd wedi bod dros y 100 blynedd diwethaf. Mae rhai o waith mwynglawdd yn agos iawn i'r arwynebedd a gyda'r tyrbinau mawr fydd hyn yn gallu arwain at ymsuddiant eang gyda risg at fywydau.

Roedd yr arolygwr wedi cadarnhau fod y dwr sy'n dryddiferiad wrth safle hen y gwaith glo yn mynd i barhau. Mae'r pentrefwyr yn gofidio oherwydd y risg o orlifo a difrod i eiddo. Roedd aelodau hefyd yn gofidio pa gynlluniau sydd i adennill y tir. Beth fydd maint y bond? Beth fydd gwerth y bond yn 25 blynedd? Beth fydd yn digwydd os fydd y datblygwr yn mynd mewn i fethdaliad? Mae'r cwestiynau hyn dal heb ei ateb.

Roedd yr aelodau yn teimlo delai adeiladu'r tyrbinau gwynt cael ei gohiriedig tan fod y cais ar Fynydd y Gwair wedi cael ei ystyried. Roedd article yn bapur dyddiol y Carmarthen Journal yn dweud fod Cymdeithas Cadwraeth Mynydd y Betws yn ystyried mynd a'r mater hon i'r uchel lys?

Roedd un aelod yn pryderu oherwydd nid oedd ef wedi derbyn copi o'r adroddiad. Dywedwyd wrtho taw dim ond y bobl a fu'n bresennol yn y gwrandawiad roedd wedi derbyn copi. Fe gafodd yr aelod cynnig o gopi.

Fe gytunwyd ar y camau isod:-

1.Bod llythyr yn cael ei ddanfon at Lywodraeth Cynulliad Cymru yn amlinelliad ein siomedigaeth gyda'r penderfyniad ac yn mynegi ein pryderon ynglyn â gwahanol agweddau o'r datblygiad a'u heffaith niweidiol ar y pentref. Anne Sizmur, Loreen Lewis a Carwyn James i ddrafftio llythyr.
2.Delai pwyllgor cyswllt cael ei sefydlu rhwng y cwmni a phreswylwyr o Fetws i drafod datblygiad cyfredol o dyrbinau gwynt i drio sortio allan unrhyw broblem yn y dyfodol.
3.Delai pwyllgor ar wahân cael ei sefydlu i wneud yn sicr fod mwyafrif o'r arian a gynhyrchwyd gan y datblygydd yn cael ei ddefnyddion am fudd pentref y Betws.
4.Delai llythyr cael ei ddanfon at Adran y Briffordd o Gyngor Sir Caerfyrddin yn amlinellu ein pryderon a pan fydd y datblygiad yn dechrau fe fydd ychwanegiad o draffig ar Fynydd y

Betws. Mae hyn yn briffordd brysur oherwydd mae'n cael eu defnyddion gyda gweithwyr y DVLA ag Ysbyty Morriston. Fydd y cynnydd yn y traffig yn gallu arwain i'r posibilrwydd o ddamwain difrifol iawn.

Adroddiad ar Gyfarfod Diogelwch y Briffordd a gynhaliwyd ar y 12fed o Fehefin 2009
Roedd cyfarfod wedi cael eu cynnal ar sgwâr y Betws a fu Mr McEvoy o Gyngor Sir Caerfyrddin yn bresennol. Roedd y cyfarfod wedi cael ei alw i drafod y tagfeydd ar Heol y Betws yn enwedig y sgwâr. Dywedodd Mr McEvoy fod ganddo gynllun am Heol y Betws, ond nid oedd preswylwyr am gyfyngu parcio.

Yn ystod y cyfarfod welodd Mr McEvoy tagfeydd caled ar y sgwâr ac fe ddywedodd fydd yn mynd yn nol i'r bwrdd llunio a fydd yn mynd i drefnu i ailymweld yr ardal a fydd rhaid iddo wneud cynigion newydd.

Llwybrau Troed
Mae sawl aelod wedi derbyn cwynion ynglyn â safon y llwybrau troed o fewn y Pentref. Mae llawer o'r llwybrau wedi gordyfu ac mae eisiau cynnal a chadw nhw.

Penderfynwyd fod y Clerc yn ysgrifennu at Adran y Llwybrau Troed o Gyngor Sir Caerfyrddin i drefnu cyfarfod gyda'r Is-bwyllgor y Cyngor Cymuned. Oherwydd mae ganddynt bryderon ar y diffyg o gynnal a chadw'r llwybrau troed a hefyd beth yw ei chynlluniau am gynnal a chadw'r llwybrau troed o fewn y pentref y flwyddyn hon.

Nid yw Mr Lewis wedi derbyn llythyr y Clerc yn gofyn iddo a yw am gynnal a chadw'r cafnau blodau yn y pentref. Y Clerc i ysgrifennu at Mr Lewis eto, cyfeiriad 23 Heol Maescware, Betws, yn gofyn iddo a yw am gynnal a chadw'r cafnau ar ran y Cyngor Cymuned.